EA - WATER RESOURCES QUALITY Box 10

FILE COPY
Please do not remove

Briefing Note

NTAETH YR
YLCHEDD CYMRU
RONMENT
NCY WALES

Cross Border River Basin Districts and the Water Framework Directive

A number of River Basin Districts (RBDs) established under the Water Framework Directive (WFD) will cross the borders of England/Scotland and England/Wales. This Brief gives our current understanding and position with regard to some of the key issues in these cross border RBDs.

Key Issues

- The Water Framework Directive requires Member States to manage water on the basis of River Basin Districts (RBDs). These cut across administrative, political and historical water management boundaries.
- The Environment Agency (the Agency), Department for Environment, Food and Rural Affairs (Defra), Scottish Environment Protection Agency (SEPA), Scottish Executive (SE) and Welsh Assembly Government will all be involved in resolving cross border RBD issues.
- Defra and the Welsh Assembly Government's Second WFD Consultation in October 2002 indicated a single River Basin District covering the England/Scotland Border (this was referred to as the 'Scottish Borders' RBD)
- Currently there are significant legislative differences between England and Scotland for environmental management
- The Severn and Dee RBDs straddle the border between England and Wales.
- The Welsh Assembly Government has devolved responsibility for transposition of the WFD in Wales
- For 'shared' RBDs, there can be only one Competent Authority

Trans-boundary Implications of WFD

In the United Kingdom, cross border RBDs raise particular issues for the relationship between the Environment Agency (as Competent Authority for England & Wales), SEPA (as lead Competent Authority for Scotland) devolved Government (SE & Welsh Assembly Government), Regional Assemblies, Local Authorities and other Government Agencies.

England/Scotland

Although most of the "Scottish Borders" RBD falls within Scotland, part of the watershed is in England. The catchments of the Eden, Waver and Wampool, draining to the Solway Firth, and the River Till, a tributary of the River Tweed, would form part of this RBD.

There are significant legislative differences between England and Scotland for environmental management. The SE has recently enacted the Water Environment & Water Services (WEWS) Act (2003), which gives important new regulatory powers to SEPA. In addition, there are significant operational differences between SEPA and the Agency.

Environment Agency, Rio House, Waterside Drive, Aztec West, Almondsbury, Bristol BS32 4UD
Tel: 01454 624 400 www.environment-agency.gov.uk

For "shared" River Basin Districts, there can only be one competent authority. Some 75% of the proposed Scottish Borders RBD is in Scotland but SEPA only has jurisdiction in Scotland and the Agency in England & Wales. The relevant River Basin Management Plan and Programme of Measures provisions will have to be signed-off by both the SE and Defra. For SEPA to lead on the Scottish Borders, a formal commitment would be required from the Agency in terms of contributing to the planning process, reporting and delivery of measures to meet the objectives of the Directive.

England/Wales

Defra and the Welsh Assembly Government published draft Regulations for consultation in July 2003, which set out proposals for the transposition of the WFD in to law in England & Wales by the end of 2003. However, these will not include any detailed provisions for cross-border RBDs.

The Severn and Dee RBDs straddle the border between England and Wales. The administrative arrangements are made somewhat simpler across this boundary because the Agency will be the sole Competent Authority for both countries. The Welsh Assembly Government however, has devolved responsibility for transposition of the WFD in Wales and will need to work in partnership with Defra to develop the administrative arrangements for the Severn and Dee RBDs. An option for use within the process would be to develop sub-basin plans for individual or groups of catchments on either side of the border for reporting to the relevant government.

Way Forward

The Agency and SEPA are committed to working together to identify appropriate administrative arrangements and structures for the Borders as part of their development of National River Basin Planning strategies for both Scotland and England & Wales.

SEPA and the Agency will engage with stakeholders on their approach to River Basin Planning and public participation. SEPA will shortly begin consultation on their approach to River Basin Planning and the Agency is to develop a National Strategy for Public Participation in River Basin Planning by 2005. These initiatives will provide key opportunities for local and national engagement in WFD implementation.

The Agency and SEPA already have sound and effective arrangements in place at a local level for operational liaison across the England/Scotland border. These will form a basis for the more formalised arrangements that will be necessary for WFD implementation. Discussions between both organisations so far have identified a need to review the detailed definition of RBD boundaries across the Solway/Tweed Estuaries. The next stage will be to consider the definition of sub-basins within the Scottish Borders and the implications for groundwater and coastal waters. In addition to these tasks, development of a common understanding of the agencies relative responsibilities in the "Scottish Borders" RBD will be required, including the identification of an authority to lead the planning and reporting processes.

The development of a strategy for public participation in River Basin Planning for England & Wales will be a vehicle for taking the views of local stakeholders into account, as well as those of the Welsh Assembly Government and emerging Regional Government in England. This will ensure consistency of approach in the Scottish and Welsh border areas, as well as the rest of England.

SEPA will begin consultation on a River Basin Planning strategy for Scotland shortly. Formal consultation by the Agency on Public Participation is programmed for the summer of 2004. There may ultimately be differences of detail in the final strategies for England & Wales/Scotland that reflect the different legislative backgrounds, but there is a strong mutual commitment to engaging with all key stakeholders to achieve the WFD requirement for "active involvement" of all interested parties in River Basin Planning.

For further information, please contact:
Isobel Austin, Environment Agency, Water Framework Directive Communications Project
Tel: 01491 828520 Email: isobel.austin@environment-agency.gov.uk

ENVIRONMENT AGENCY

Information Services Unit

Please return or renew this item by the due date

Due Date

Version 1 - July 2003

ENVIRONMENT AGENCY
135018

Nodyn Briffio

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Ardaloedd Basn Afon Trawsffiniol a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Bydd nifer o'r Ardaloedd Basn Afon (ABA) a sefydlir o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) i'w canfod o bobtu ffiniau Lloegr/Yr Alban a Lloegr/Cymru. Yn y briff hwn rhoddir ein dealltwriaeth a'n safbwynt presennol parthed rhai o'r materion allweddol yn yr ABA trawsffiniol hyn

Materion allweddol

- Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn gofyn i Aelod Wladwriaethau reoli dŵr ar sail Ardaloedd Basn Afon (ABA). Mae'r rhain yn torri ar draws ffiniau gweinyddol, gwleidyddol a hanesyddol rheoli dŵr.
- Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd (yr Asiantaeth), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA), Llywodraeth yr Alban (LlA) a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyd â rhan yn y gwaith o ddatrys materion ABA trawsffiniol
- Dangoswyd gan Ail Ymgynghoriad CFfD Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2002 bod un Ardal Basn Afon yn ymestyn ar draws Gororau Lloegr/Yr Alban (cyfeirir ato fel ABA 'Gororau'r Alban')
- Ar hyn o bryd mae gwahaniaethau deddfwriaethol sylweddol yn bodoli rhwng Lloegr a'r Alban ar gyfer rheoli'r amgylchedd
- Mae ABA yr Hafren a'r Dyfrdwy ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datganoli'r cyfrifoldeb am newid y CFfD yng Nghymru
- Ni ellir cael ond un Awdurdod Cymwys ar gyfer ABA sydd 'wedi'u rhannu'

Goblygiadau Trawsffiniol CFfD

Yn y Deyrnas Unedig, mae ABA trawsffiniol yn codi materion penodol o safbwynt y berthynas rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd (fel yr Awdurdod Cymwys ar gyfer Cymru a Lloegr), SEPA (fel y blaen Awdurdod Cymwys ar gyfer yr Alban), Llywodraeth ddatganoledig (Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru), Cynulliadau Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau eraill y Llywodraeth.

Lloegr/Yr Alban

Er bod y rhan fwyaf o ABA 'Gororau'r Alban' yn yr Alban, yn Lloegr mae rhan o'r wahanfa ddŵr. Byddai dalgylch yr Eden, y Waver a'r Wampool, sy'n draenio i'r Solway Firth, a'r Afon Till, llednant i'r Afon Tweed, yn ffurfio rhan o'r ABA hwn.

Mae gwahaniaethau deddfwriaethol sylweddol yn bodoli rhwng Lloegr a'r Alban ar gyfer rheoli'r amgylchedd. Yn ddiweddar pasiwyd Deddf Amgylchedd Dŵr a Gwasanaethau Dŵr (2003) gan Lywodraeth yr Alban, sy'n rhoi grymoedd rheoleiddiol newydd pwysig i SEPA. Yn ogystal, mae gwahaniaethau gweithredu sylweddol rhwng SEPA a'r Asiantaeth.

Asiantaeth yr Amgylchedd, Rio House, Waterside Drive, Aztec West, Almondsbury, Bryste BS32 4UD
Ffôn: 01454 624400 www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk

Ni ellir cael ond un awdurdod cymwys ar gyfer Ardaloedd Basn Afon 'wedi'u rhannu'. Yn yr Alban ymae rhyw 75% o ABA Gororau'r Alban arfaethedig, ond yn yr Alban yn unig y mae gan SEPA awdurdod, ac mae'r awdurdod yng Nghymru a Lloegr gan yr Asiantaeth. Bydd rhaid i Lywodraeth yr Alban a Defra arwyddo'r Cynllun Rheoli Basn Afon a darpariaethau'r Rhaglen Gamau berthnasol. Cyn y gall SEPA flaenu ar Ororau'r Alban, byddai'n ofynnol cael ymrwymiad ffurfiol gan yr Asiantaeth o safbwynt cyfrannu i'r broses gynllunio, adrodd a gweithredu camau i gwrdd ag amcanion y Gyfarwyddeb.

Cymru/Lloegr

Cyhoeddwyd Rheoliadau drafft ar gyfer ymgynghoriad gan Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Ngorffennaf 2003, sy'n amlinellu argymhellion ar gyfer newid y CFfD yn gyfraith yng Nghymru a Lloegr erbyn diwedd 2003. Ni fydd y rhain yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer ABA trawsffiniol.

Mae ABA yr Hafren a'r Dyfrdwy o boptu'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Bydd y trefniadau gweinyddol yn symlach ar draws y ffin hon gan mai'r Asiantaeth fydd yr unig Awdurdod Cymwys ar gyfer y ddwy wlad. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb datganoledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i newid y CFfD yng Nghymru a bydd angen iddi weithio mewn partneriaeth â Defra er datblygu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer ABA yr Hafren a'r Dyfrdwy. Un opsiwn y gellid ei ddefnyddio o fewn y broses fyddai datblygu cynlluniau is-fasn ar gyfer dalgylch unigol neu grwpiau o ddalgylchoedd ar bob ochr i'r ffin fel y gellid adrodd wrth y llywodraeth berthnasol.

Y Ffordd Ymlaen

Mae'r Asiantaeth a SEPA yn ymrwymedig i weithio gyda'i gilydd er adnabod trefniadau a strwythurau gweinyddol addas ar gyfer y Gororau yn rhan o'u gwaith o ddatblygu strategaethau Cynllunio Basn Afon Cenedlaethol ar gyfer yr Alban a Chymru a Lloegr.

Bydd SEPA a'r Asiantaeth yn gweithio gyda chyfranddalwyr ar y ffordd o fynd ati i drefnu'r gwaith o Gynllunio Rheoli Basn Afon ac ymgyfraniad y cyhoedd. Cyn hir bydd SEPA yn dechrau ymgynghori ynghylch eu ffordd hwythau o fynd ati o safbwynt y Cynllunio Basn Afon ac mae'r Asiantaeth yn mynd i ddatblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymgyfraniad y Cyhoedd yn y broses o Gynllunio Rheoli Basn Afon erbyn 2005. Bydd y mentrau hyn yn rhoi cyfleoedd allweddol i gael cyfraniadau lleol a chenedlaethol yn y broses o weithredu'r CFfD.

Mae trefniadau cadarn ac effeithiol gan yr Asiantaeth a SEPA yn eu lle eisoes ar lefel leol er sicrhau cyswllt gweithrediadol ar draws ffin Yr Alban/Lloegr. Y rhain fydd yn ffurfio'r sail ar gyfer y trefniadau mwy ffurfioledig a fydd yn angenrheidiol er gweithredu'r CFfD. Hyd yn hyn adnabuwyd gan drafodaethau rhwng y ddau sefydliad yr angen i adolygu'r diffiniad manwl o ffiniau ABA ar draws Morydau Solway/Tweed. Y cam nesaf fydd ystyried y diffiniad o is-fasnau o fewn Gororau'r Alban a'r goblygiadau o safbwynt dŵr daear a dyfroedd arfordirol. Yn ogystal â'r tasgau hyn, bydd gofyn cyd-ddealltwriaeth ynghylch cyfrifoldebau perthynol yr asiantaethau yn ABA 'Gororau'r Alban' gan gynnwys enwi'r awdurdod i flaenu'r prosesau cynllunio ac adrodd.

Bydd datblygu strategaeth ar gyfer ymgyfraniad y cyhoedd yn y Cynllunio Rheoli Basn Afon ar gyfer Cymru a Lloegr yn fodd i gymryd barn cyfranddalwyr lleol i ystyriaeth yn ogystal â barn Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Rhanbarthol sydd ar y gorwel yn Lloegr. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn y dull o weithredu yn ardaloedd y gororau yng Nghymru a'r Alban, yn ogystal â gweddill Lloegr.

Bydd SEPA yn cychwyn ymgynghoriad ar strategaeth Cynllunio Basn Afon ar gyfer yr Alban cyn bo hir. Bydd ymgynghoriad ffurfiol gan yr Asiantaeth ar Ymgyfraniad y Cyhoedd yn rhan o'i rhaglen haf yn 2004. Yn y pen draw, mae'n ddigon posib y bydd gwahaniaethau yn y manylion yn strategaethau terfynol Cymru a Lloegr/Yr Alban a fydd yn adlewyrchu cefndir deddfwriaethol gwahanol, ond mae cyd-ymrwymiad cryf yn bodoli i gydweithredu â'r holl gyfranddalwyr allweddol er cyflawni gofyniad y CFfD am 'ymgyfrannu gweithredol' ar ran y buddianwyr i gyd yn y broses o Gynllunio Basn Afon.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch os gwelwch yn dda â:
Isobel Austin, Asiantaeth yr Amgylchedd, Prosiect Cyfathrebu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
Ffôn: 01491 828520 Ebost: isobel.austin@environment-agency.gov.uk

Fersiwn 1 - Gorffennaf 2003

ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD
PENCADLYS
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Bristol BS32 4UD
Ffôn: 01454 624400
Ffacs: 01454 624409
www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk

ENVIRONMENT AGENCY
HEAD OFFICE
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Bristol BS32 4UD
Tel: 01454 624400
Fax: 01454 624409
www.environment-agency.gov.uk

ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU
SWYDDFA CYMRU
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0TP
Ffôn: 029 2077 0088
Ffacs: 029 2079 8555
www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk

ENVIRONMENT AGENCY WALES
WALES OFFICE
Cambria House
29 Newport Road
Cardiff CF24 0TP
Tel: 029 2077 0088
Fax: 029 2079 8555
www.environment-agency.wales.gov.uk

BANGOR
ARDAL Y GOGLEDD
NORTHERN AREA
ARDAL HAFREN UCHAF
UPPER SEVERN AREA
AMWYTHIG
SHREWSBURY
ARDAL Y DE DDWYRAIN
SOUTH EAST AREA
ARDAL Y DE ORLLEWIN
SOUTH WEST AREA
HWLFFORDD
HAVERFORDWEST
CAERDYDD
CARDIFF
SWYDDFA CYMRU
WALES OFFICE
SWYDDFEYDD ARDAL
AREA OFFICES

Rydym yn croesawu ymatebion gan gynnwys sylwadau ynglŷn â chynnwys a chyflwyniad yr adroddiad hwn.

Os ydych yn hapus gyda'n gwasanaeth, byddem yn falch petaech yn rhoi gwybod i ni. Mae hyn yn ein cynorthwyo i nod-adnabod ymarfer da ac yn gwobrwyo ein staff. Os ydych yn anhapus ynghylch ein gwasanaeth, byddem yn falch petaech yn dweud wrthym sut medrwn ei wella.

Am gopïau ychwanegol o'r adroddiad hwn neu adroddiadau eraill a gyhoeddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd, cysylltwch ag ymholiadau cyffredinol ar 0845 9 333 111 neu anfonwch neges ebost i ni ar enquiries@environment-agency.gov.uk

HO/12.03/100/BHSA/kk/WM 138 - Printwyd ar / Printed on Cyclus Print

YMHOLIADAU CYFFREDINOL ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD
ENVIRONMENT AGENCY GENERAL ENQUIRY LINE

0845 9 333 111

FLOODLINE ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD
ENVIRONMENT AGENCY FLOODLINE

0845 988 1188

LLINELL ARGYFWNG ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD
ENVIRONMENT AGENCY EMERGENCY HOTLINE

0800 80 70 60

We welcome feedback including comments about the content and presentation of this report.

If you are happy with our service please tell us. It helps us to identify good practice and rewards our staff. If you are unhappy with our service, please let us know how we can improve it.

For further copies of this report or other reports published by the Environment Agency, contact general enquiries on 0845 9 333 111 or email us on enquiries@environment-agency.gov.uk

ASIANTAETH YR
AMGYLCHEDD CYMRU
ENVIRONMENT
AGENCY WALES